# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 14EG RHAGFYR, 2017**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 6/12/17)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2017**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 14 RHAGFYR 2017**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **14EG RHAGFYR, 2017 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Annibynnol Gwynedd – Ystafell Daron
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Llafur Rhyddfrydol - Ystafell Llyfni

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2017, fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o’r Cyfansoddiad.

**8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2018/19** 14 - 18

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid  (ynghlwm).

**9. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD** 19 - 28

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro  (ynghlwm).

**10. PENDERFYNIAD BRYS CABINET** 29

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro  (ynghlwm).

**11. RHYBUDDION O GYNNIG**

## (A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS

Yn unol a'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn galw am drefniant fel y bydd hanes Cymru yn cael blaenoriaeth mewn gwersi hanes ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa bresennol lle mae diffygion yn dysgu ein hanes a'n hunaniaeth i bob pwrpas yn annerbyniol.**

**Felly galwn ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau angenrheidiol i wireddu y diffyg hwn a hynny yn ddiymdroi."**

## (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD CRAIG AB IAGO

Yn unol a'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Craig ab Iago yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Noda'r Cyngor:**

**Fod y Credyd Cynhwysol, sy'n gyfrifoldeb llywodraeth Toriaid San Steffan, yn ddiffygiol ac yn creu caledi i deuluoedd ac unigolion mwyaf anghenus ein cymdeithas. Ofnir y bydd cynnydd sylweddol mewn ôl-daliadau yn arwain at fwy o ddigartrefedd a mwy o bwysau ar ein gwasanaethau.**

**Nid oes digon o bwysau gwleidyddol wedi ei roi gan Lywodraeth Lafur Cymru yng Nghaerdydd ar San Steffal i ddatganoli'r drefn lles i Gymru. Credwn yn gryf y dylai'r drefn budd-daliadau gael ei ddatganoli'n llwyr i Gymru ond yn y cyfamser gellid datganoli gweinyddiaeth y drefn lles i Gymru fel y mae yn yr Alban, er mwyn rhoi hyblygrwydd i liniaru effeithiau'r dreth anghyfiawn hwn."**

## (C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN

Yn unol a'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Mae'r Cyngor yn mynegi pryder sylweddol at y modd y mae Llywodraeth Sbaen wedi carcharu 10 o aelodau etholedig Llywodraeth Catalwnia Mae'r fath erledigaeth yn ymosodiad ar brosesau democrataidd cyflawn ac yn tanseilio egwyddorion llywodraethu'r Undeb Ewropeaidd. Gan fod rhai o drigolion Gatalwnia yn byw yng Ngwynedd galwn ar Lywodraeth Cymru i**

**ddatgan yn glir eu gwrthwynebiad i'r fath gamwedd ac i yrru neges i Lywodraeth Sbaen nad yw eu hymddygiad yn gydnaws ac egwyddorion hawliau dynol."**

# Y CYNGOR DYDD IAU, 5 HYDREF 2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Daniels (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Hughes (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Wayne Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol), Sioned E Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Ian Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) Arwel E. Jones a Janet Roberts (Uwch Reolwyr Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) Jeremy Evans (Swyddfa Archwilio Cymru) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Berwyn P. Jones, Charles W. Jones, Mike Stevens.

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2017, a chyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf, 2017 fel rhai cywir.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(1) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â theuluoedd y cyn Gynghorwyr Trevor Edwards a Brian Jones. Nodwyd y bu'r ddau yn gynghorwyr cydwybodol a gweithgar, gan wasanaethu eu cymunedau a'r sir mewn modd clodwiw iawn. Talwyd teyrnged i'r cyn Gyng Trevor Edwards gan y Cyng Eric M. Jones, a'r cyn Gyng Brian Jones gan y Cyng Sion Jones.

Nodwyd bod y Cyngor hefyd yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn ddiweddar, yn enwedig Gwion Hallam ar ennill y Goron, ac Osian Rhys Williams ar gipio'r Gadair.

Hefyd, diolch i'r holl staff a fu'n ymwneud a'r trefniadau llwyddiannus ar gyfer taith baton y Gymanwlad yng Ngwynedd fis diwethaf.

**4. CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts**

**"Yn fy ward fy hun (Abersoch) mae pryder mawr ynglŷn â'r cynigion i gau Meddygfa cangen.**

**Bydd Pwyllgor Lleol Gwynedd o'r Cyngor Iechyd Cymuned yn gwahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i drafod materion gofal iechyd sylfaenol yng Ngwynedd. Credaf fod y sefyllfa recriwtio a chadw Meddygon Teulu yng Ngwynedd yn argyfwng sy'n aros i ddigwydd. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau gofal yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.**

**Sut mae'r Cyngor ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd yn paratoi ar gyfer sefyllfa fregus gyda gwasanaeth meddygon yng Ngwynedd ar hyn o bryd, a pha gynlluniau sydd ar y gweill yn y tymor byr a'r hirdymor i ddatrys recriwtio staff meddygol - oes yna ymateb a neu drafodaethau i sicrhau gwasanaeth addas meddygol i gleifion a chyhoedd y Sir?"**

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r cwestiwn i'r aelodau ymlaen llaw.)

"Rwyf yn ymwybodol iawn o'r cefndir ac yn deall pam bod y Cynghorydd Dewi Roberts yn codi'r cwestiwn yma. Mae'r heriau sy'n wynebu gofal cychwynnol yn genedlaethol ac yn lleol yn sylweddol. Mae poblogaeth sy'n heneiddio, daearyddiaeth wasgaredig, galw cynyddol, anhawster cyson i recriwtio a chadw staff, a'r angen i ddatblygu patrymau darparu gwasanaeth newydd yn creu sefyllfa heriol yn y maes iechyd a gofal.

Nid oes ateb syml i'r cwestiwn yma, mae hi'n gynyddol amlwg nad yw'r dulliau traddodiadol o weithredu bellach am ddiwallu'r angen ac o ganlyniad rhaid cychwyn ar daith o newid a datblygu'r hun sydd am fodloni'r galw cymhleth ohoni.

Mewn gwirionedd, cwestiwn sy'n ymwneud a recriwtio meddygon a staff iechyd yw hwn ac wrth gwrs, rôl y Bwrdd Iechyd fyddai cydlynu ymdrechion i ymateb yn ffurfiol i'r sefyllfa yma.

Wedi dweud hyn, un o flaenoriaethau'r Cyngor yma ydi ymateb i'r angen i wella'r ffyrdd yr ydym yn cefnogi oedolion sydd yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r gwaith o atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf neu ymateb mor fuan â phosib pan fo materion yn codi yn un o brif egwyddorion y Ddeddf, ac rwyf yn hyderus y bydd y gwaith partneriaeth gyda'r

Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gofal ac ataliol yng Ngwynedd yn arwain at ysgafnhau'r baich a'r angen am ofal clinigol.

Mae llawer iawn o waith yn digwydd wrth ymateb i'r angen i wella'r ffyrdd yr ydym yn cefnogi pobl sydd yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Ond mae gofyn i ni feddwl yn wahanol, a rhan o hyn yw edrych ar draws yr holl ystod o wasanaethau a chyfleodd sydd mewn cymunedau. Rydym ar siwrne uchelgeisiol a heriol ond rwy'n grediniol ein bod yn gwneud cynnydd da gyda'r gwaith o wella hyn, er bod llawer o waith pellach i'w wneud."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts**

"Gan gyfeirio at Llythyr Dr EL Jessup ar ran y Pwyllgor Meddygon Teulu Gogledd Cymru i Aelodau Senedd ar y 7fed Awst 2017 lle maen nhw yn dweud -

'The Lleyn peninsula is also badly affected, Criccieth practice having just given in their notice of closure. The domino effect that has long been forecast is now seriously looming on the horizon.
There has been a seeming absence of proactive action to address the fundamental issues behind the crisis we now face.
Just this week, we were distressed to hear that trainee posts appear to have been withdrawn from the pool that exists in North Wales. Good candidates have moved up to North Wales in anticipation of applying for these posts and are left disappointed by this seemingly precipitous decision.'

**Gaf ofyn pam mae penderfyniad wedi ei wneud - I dynnu nôl swyddi hyfforddiant meddygon yn Gogledd Cymru pam mae hi mor amlwg fod recriwtio yn anodd, ac am cadarnhad ein bod yn cadw llygaid barcud at y sefyllfa er mwyn lles ein trigolion yng Ngwynedd."**

**Ateb gan yr Aelod Cabinet oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

"Mae hyfforddi meddygon teulu yn cymryd 3 blynedd. Mae 18 mis yn cael ei dreulio mewn Meddygfa a 18 mis yn yr Ysbyty yn gweithio ym maes pobl hyn, plant, obstetric ac Iechyd meddwl. Ar ddiwedd y 3 blynedd mae'n rhaid i'r Meddyg basio arholiad cymhwyso. Mae 8 meddyg y flwyddyn yn cael ei recriwtio i'r cynllun yn Ysbyty Gwynedd, mae Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam yn derbyn meddygon i hyfforddi hefyd.

Peth arall i'w nodi. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £20,000 o ysgogiad i bobl ymuno yn y cynllun. Hefyd mae posib i rywun wneud y cynllun yn rhan amser, ond mae o felly yn cymryd mwy na tair blynedd i gwblhau, yr un peth yn digwydd os bydd cyfnod o famolaeth yn digwydd."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Owain Williams**

**"Yn dilyn pleidlais yn ddiweddar yn y Cyngor i wrthod cynnig a olygai torri tâl Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion o rhwng £2,000 a £3,000 y pen. Faint yn union fydd y swm ychwanegol hwn yn ei gostio i'r Cyngor hwn ac i'r trethdalwyr?"**

(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r cwestiwn i'r aelodau ymlaen llaw.)

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor**:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n gosod yr arweiniad yn genedlaethol ynghylch lefel Cyflogau ar gyfer aelodau etholedig. Yr unig elfen o hyblygrwydd o fewn y canllawiau yw'r cyfrifoldeb ar wahanol gynghorau i benderfynu gosod Cyflogau Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel.

Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2017 i gadw lefel cyflog Aelodau Cabinet ar Lefel 1 (£29,100) a Chadeiryddion Pwyllgorau ar lefel 1(£22,100), yn unol â phenderfyniad y flwyddyn flaenorol ar y sail ei fod yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith ynghlwm a'r rolau dan sylw.

Mewn geiriau eraill, nid oedd swm ychwanegol i'r Cyngor ei dalu ar sail y penderfyniad hwn.

Dylid nodi fodd bynnag fod pob cyflog aelod wedi codi o £100 yn y flwyddyn ariannol 2017/18 (gan gynnwys yr uwch gyflogau), felly mae'r costau ychwanegol i'r Cyngor eleni yn seiliedig ar arweiniad y Panel Annibynnol yn £100 fesul aelod, sef cyfanswm o £7,500.

Petai'r Cyngor wedi pleidleisio gyda'r cynnig i newid y Cyflogau i Lefel 2 ar gyfer Aelodau'r Cabinet a'r Cadeiryddion, yna byddai wedi arwain at arbediad o £37,200.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2016/17

Cyflwynodd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ei hadroddiad am 2016/17.

Nododd fod llwyth gwaith y Pwyllgor yn dyst i safonau ymddygiad uchel ym mywyd cyhoeddus, a bod pwyslais y Pwyllgor wedi bod ar hyfforddiant a gwella ymwybyddiaeth aelodau Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd, a chyfnod gwleidyddol cythryblus.

## 7. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands adroddiad yn nodi fod angen penodi dau aelod etholedig i'r Pwyllgor Safonau.

Cynigiwyd a eiliwyd argymhelliad Grŵp Busnes y Cyngor fod y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton yn cael eu penodi'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD**
**Penodi'r Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton yn Aelodau o'r Pwyllgor Safonau**

## 8. Y DREFN O GANFOD ARBEDION I'R DYFODOL

Nododd y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid fod y Cyngor yn parhau mewn cyfnod heriol. Atgoffodd y Cyngor fod cyflawni arbedion Her Gwynedd bron a'u cwblhau, a'i fod wedi bod yn drefn lwyddiannau er mwyn canfod yr arbedion angenrheidiol. Fodd bynnag 'roedd wedi dod i'r amlwg fod angen trefn arbedion newydd i'r dyfodol

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr. Nododd fod y Cyngor wedi bod yn canfod arbedion ers 2006 er mwyn cwrdd ag effeithiau chwyddiant a phwysau ar wasanaethau. Gydag effaith toriadau Llywodraeth y DU yn parhau, yn ogystal ag ansicrwydd Brexit, 'roedd yn gynyddol amlwg fod angen dechrau cynllunio arbedion i'w gweithredu o 2019/20 ac ymlaen.

'Roedd yr adran Cyllid wedi taflunio nifer o sefyllfaoedd cyllidol, a byddai'r Cabinet yn penderfynu ar dargedau arbedion gwahaniaethol i'r adrannau er mwyn cwrdd â'r sefyllfaoedd mwyaf tebygol. Byddai'r penaethiaid adran wedyn yn cyflwyno arbedion posib i gwrdd a'r targedau hynny i'r Pwyllgorau Craffu herio'r cynlluniau ar ran pobl Gwynedd.

Wedi i'r Aelodau gael cyfle i leisio'u barn byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal, cyn mynd ymlaen i benderfynu a gweithredu ar y cynlluniau arbedion terfynol.

Yn dilyn y cyflwyniad manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nodwyd fod y darlun yn ymddangos yn un difrifol iawn a bod cyfrifoldeb torfol i wneud y gorau o'r sefyllfa a chymryd rhan.

Nodwyd ei fod yn ymddangos fod codiad treth Cyngor yn cael ei gyfyngu i 5% gan y Cynulliad. Cwestiynwyd a fyddai cyfyngiad o'r fath yn parhau, a beth fyddai codiad treth cyngor o 5% yn ei olygu? Pe bai'r Cyngor yn dilyn model Sgandinafaidd, faint o godiad yn y dreth fyddai ei angen i wella gwasanaethau?

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Cyllid nad oedd wedi craffu modelau sgandinafaidd, a thra byddai codiad o 5% yn golygu tua £3.5 miliwn ychwanegol i goffrau'r Cyngor, ni fyddai hynny yn cwrdd â chwyddiant. Nododd y Prif Weithredwr na fu erioed gyfyngiad ffurfiol mewn lle, ac 'roedd yn amau y byddai yna awdurdod lleol yn rhywle yn wynebu'r pwysau i groesi'r 5% cyn y byddai Gwynedd yn wynebu hynny, gan fod y sefyllfa yn mynd yn eithriadol o fregus mewn aml i le.

Nodwyd bod rhai gwasanaethau eisoes o dan bwysau enbyd a holwyd ble oedd y llinell lle na ellid torri ymhellach?

Mewn ymateb nododd y Prif Weithredwr nad oedd yn eglur eto ble oedd y llinell honno, ond fod angen sicrhau fod pob gwastraff ac opsiwn arall wedi ei ganfod a'i wyntyllu cyn ei chyrraedd.

Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal er mwyn cydweithio gyda chynghorau Tref a Chymuned er mwyn cynnal gwasanaethau, ond bod adnoddau'r Cynghorau Cymuned eu hunain yn brin ac y byddai cymryd baich oddi ar y Cyngor yn golygu cynnydd pellach yn eu preseptau hwythau.

Wrth drafod cydweithio nododd y Prif Weithredwr fod cynllunio a blaenoriaethu ariannol yn fater i'r Cynghorau eu hunain, ond byddai'r Cyngor yn annog cydweithio ac edrych ar bob opsiwn i warchod gwasanaethau.

## 9. YMATEB I YMGYNGHORIAD DIWYGIO ETHOLIADOL YM MAES DIWYGIO ETHOLIADOL YNG NGHYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Mair Rowlands, Diprwy Arweinydd y Cyngor sylwadau drafft a baratowyd ar ran y Cyngor.

Cynigwyd ac eiliwyd cyflwyno'r sylwadau fel ymateb i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD Cyflwyno'r sylwadau fel ymateb i'r ymgynghoriad.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARCHWILIWR DOSBARTH

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn adroddiad blynyddol ar waith Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Gwynedd yn ystod 2016/17, gan nodi ei fod yn adroddiad cadarnhaol. Nododd Mr Jeremy Evans Rheolwr Llywodraeth Leol o Swyddfa Archwilio Cymru fod yr adroddiad yn crynhoi eu gwaith am y flwyddyn, gan ategu ei fod yn adroddiad positif ar y cyfan er bod rhai ardaloedd ble 'roedd lle i wella.

Cynigwyd ac eiliwyd i dderbyn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL STRATEGOL DIOGELU

Cyflwynodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc adroddiad blynyddol y Panel Strategol Diogelu. Nododd mai pwrpas yr adroddiad oedd diweddaru'r Cyngor ar yr hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol. Pwysleisiodd fod diogelu yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor gyda'r Panel Strategol yn sicrhau trefniadau effeithiol. Nododd fod gwaith y Panel Strategol Diogelu yn ehangu wrth i gyfrifoldebau a gofynion y maes gynyddu, a'i fod yn gyfrifoldeb ar holl aelodau'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gofynion ar lywodraethwyr ysgolion a'r hyfforddiant a chefnogaeth oedd ar gael iddynt, anogodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc i unrhyw aelod o gorff llywodraethol ysgol i fanteisio ar hyfforddiant ar eu dyletswyddau yn y maes. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod ymdrechion wedi canolbwyntio ar gadeiryddion hyd yma, ond y byddai nodyn briffio yn cael ei gylchredeg i bob corff llywodraethu ysgol er mwyn hyrwyddo'r maes.

## 12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a dyraniad seddi ar bwyllgorau yn dilyn newidiadau diweddar.

Cynigwyd a eiliwyd i dderbyn yr adroddiad

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cydbwysedd gwleidyddol.**

| **A** | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Llais Annibynnol Gwynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 2 | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 6 | 1 | 0 | 1 | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Llais Annibynnol Gwynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | 15 |
| Trwyddedu | 8 | 5 | 1 | 1 | 0 | 15 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolog | | | | | | |
| Iaith | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 5 | 2 | 0 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 | 7 |
| **Nifer y seddau** | **84** | **47** | **13** | **4** | **6** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Llais Annibynnol Gwynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | 1 | 0 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | 0 | 1 | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 | 8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **103** | **57** | **15** | **5** | **7** | **187** |

**13. CYFLEUSTERAU HAMDDEN – SEFYDLU CWMNI WEDI EI REOLI GAN Y CYNGOR**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant adroddiad yn argymell dechrau'r broses o greu cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros ganolfannau hamdden Gwynedd. Nododd fod y gwasanaeth yn boblogaidd, ond fod y broses o ganfod arbedion wedi cyrraedd pen ei thaith heb ganfod yr arbedion angenrheidiol. Byddai sefydlu cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor er mwyn rhedeg y gwasanaeth yn dod a hyblygrwydd ariannol nad oedd ar gael yn bresennol, tra ar yr un pryd yn galluogi gwarchod diwylliant unigryw'r gwasanaeth i'r dyfodol. Ni fyddai unrhyw newidiadau i delerau cyflogaeth y staff ar sefydlu'r cwmni, a byddai cydweithio agos rhwng y cwmni newydd a'r Cyngor.

Gan fanteisio ar y cyfle i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau croesawyd y cynnig i sefydlu'r cwmni fel cyfle i gynnig yr un gwasanaeth i drigolion Gwynedd ar lai o gost. Gofynnwyd i'r Cyngor beidio anghofio am Bwll Nofio Harlech, gan ofyn a fyddai'n bosib i'r adnodd lleol pwysig yma gael ei ymgorffori i'r cwmni newydd, neu ar y lleiaf gydweithio'n agos. O ran cyfansoddiad bwrdd rheoli'r cwmni nodwyd yr angen i sicrhau ystod eang o brofiad a syniadau ymysg yr aelodaeth er mwyn sicrhau llwyddiant. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd penodi'r Prif Weithredwr gorau ar gyfer y cwmni gan fod hynny wedi ei adnabod fel ffactor dyngedfennol mewn ardaloedd eraill ble'r oedd cynlluniau tebyg wedi eu sefydlu.

Mewn ymateb nododd y Prif Weithredwr fod yr hyblygrwydd ariannol oedd yn cael ei gynnig gan sefydlu'r cwmni yn creu achos cryf dros ddechrau'r broses o'i sefydlu. Nododd hefyd na fyddai'n dymuno i unrhyw ddrysau i gydweithio gael eu cau yn y rhan yma o'r broses. Wrth i'r broses o sefydlu'r cwmni fynd rhagddo byddai cydweithio agos gyda'r gyfundrefn Craffu er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle. Nododd y Pennaeth Economi a Chymuned fod creu y cwmni yn gyfle gwych i adfywio'r sector Hamdden, tra'n gwarchod hunaniaeth a diwylliant y Cyngor yn y gwasanaeth. Byddai rôl Prif Weithredwr y cwmni arfaethedig yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rôl swyddogion y Cyngor ar fwrdd y Cwmni arfaethedig o ran cyfrifoldeb ariannol, nododd y Swyddog Monitro fod cyfrifoldeb am sefyllfa ariannol y cwmni yn eistedd ar ysgwyddau'r cwmni yn hytrach na chyfarwyddwyr unigol oni bai am sefyllfaoedd eithriadol.

Cynigwyd ac eiliwyd i ddechrau'r broses o sefydlu cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor ar gyfer cyfleusterau hamdden Gwynedd.

**PENDERFYNWYD Dechrau'r broses o sefydlu cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor.**

## 14. RHYBUDDION O GYNNIG

Dim

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.30 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2017** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins,<br>Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2018/19** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2018** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2018/19.

1.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.

1.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029), rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd (h.y. ar gyfer 2017/18) gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016.

1.4 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

1.5 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

1.6 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei addasu ar gyfer 2018/19.** Mae eglurhaon manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

## 2. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –**

**2.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2018 fel ag yr oedd yn ystod 2017/18. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2018/19, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

3.1 Yn unol â Deddf Diwygio Lles 2013, ers 1 Ebrill 2013 mae'r cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor, a'r cyllid sydd ynghlwm ag ef, wedi ei drosglwyddo o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029) yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.

3.3 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2017/18 gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

## 4. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2018/19

4.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

4.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

4.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

4.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Mae'r elfennau disgresiwn yma'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

4.5 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Yn 2018/19, amcangyfrifir y bydd y diystyrwch hwn o bensiynau rhyfel yn costio oddeutu £33,000 i'r Awdurdod mewn gostyngiadau Treth Cyngor. Dyma yw sefyllfa 2017/18, felly mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn Strategaeth Ariannol 2018/19.

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

4.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir y bydd cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn 2017/18 oddeutu £20,000.

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

4.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £2,000 fydd cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis) yn 2017/18.

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**4.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2018/19 yn unol â threfniadau cyfredol 2017/18.**

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

5.2 Bu ymarferiad ymgynghori hynod drylwyr a chynwysedig yn Rhagfyr 2012 / Ionawr 2013 ar gyfer cynllun 2013/14, a cynhaliwyd ymgynghoriad pellach o 29/11/13 tan 10/01/14 ar gynllun 2014/15.

5.3 Yn unol â Rheoliad 18(6), nid oes angen ymgynghori pellach gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni.

## 6. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

6.1 Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2018/19 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ar hyn o bryd. Felly, ni gynhaliodd Cyngor Gwynedd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol eleni. Gwnaethpwyd hynny ar gyfer 2013/14, pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor.

6.2 Cyfyngedig iawn yw'r disgresiwn lleol i addasu'r cynllun cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith 'rheoleiddiol', sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, a deallaf fod y darganfyddiadau yn unol â'u disgwyliadau.

## 7. ADNODDAU

7.1 Mae costau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor wedi eu cynnwys yn y 'setliad' grant i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, ond dylid nodi nad yw'r setliad yma yn talu'r Cynllun Gostyngiadau yn llawn.

7.2 Bydd rhaid i'r Cyngor ariannu unrhyw gostau'r Cynllun nad ydynt wedi eu cynnwys yn y setliad, yn ogystal â chwyddiant, fydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt chwyddiant, bydd cost y cymorth yn cynyddu'n gymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor.

7.3 Mae awdurdodau lleol yn derbyn cyfraniad tuag at gostau'r cynllun o fewn y setliad blynyddol, ond ers sefydlu'r cynllun yn 2013 nid yw'r setliad wedi adlewyrchu'r gwir gost lawn. Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn 2017/18 (yn ôl rhaniad tybiannol cyfanswm yr Asesiadau Gwariant Safonol rhwng gwasanaethau yn nhablau'r setliad amodol) yw £8.949m, ond amcangyfrifir y bydd y gwir wariant oddeutu £9.5m. Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn setliad drafft 2018/19 yw £8.926m, sydd yn leihad bychan. Nid oes dewis ond wynebu'r sefyllfa yma, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol a'i ffactorio mewn i'r Strategaeth Ariannol sy'n adnabod y bwlch ariannol yng nghyllideb 2018/19.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **14 Rhagfyr 2017** |
| **Cyflwynydd** | **Cynghorydd Medwyn Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **TEITL** | **Diwygio'r Cyfansoddiad** |
| **AMCAN** | **Gofyn i'r Cyngor fabwysiadau diwygiadau i'r Cyfansoddiad.** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mabwysiadwyd y Cyfansoddiad yn ei ffurf bresennol yng Ngorffennaf 2014. Roedd hwn yn ei hun yn newid sylfaenol o safbwynt fformat gan fabwysiadu model cenedlaethol oedd yn gynnyrch gwaith gan Grŵp Swyddogion Monitro Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, CLlC ac yn seiliedig ar fodel a gynhyrchwyd gan gwmni cyfreithwyr Bond Dickinson.

2. Ers ei fabwysiadu mae addasiadau wedi eu gwneud yn eithaf rheolaidd. Mae hyn wedi deillio yn bennaf o newidiadau deddfwriaethol neu ddatblygiadau megis yr adolygiad craffu diweddar. Fodd bynnag wrth ddefnyddio'r Cyfansoddiad newydd mae'n briodol adlewyrchu ar y ddogfen yn ei chyfanrwydd a gweld os oes angen am newidiadau i adlewyrchu gweithdrefnau a phrofiad yr awdurdod.

3. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer diwygio. Mae rhai ohonynt yn faterion dod a'r tŷ i drefn neu eglurder ond mae eraill yn awgrymu llwybrau amgen ar gyfer trefniadau penderfynu ac yn y blaen. Mae'r addasiadau penodol yn Atodiad 1.

4. Ystyriwyd yr addasiadau gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y 30ain o Dachwedd a argymhellodd:

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Llawn addasu'r Cyfansoddiad yn unol â'r adroddiad yn ddarostyngedig fod y diwygiad i Baragraff 9.12.3 yn dod yn weithredol wedi cyfarfod blynyddol y Cyngor yn 2018.**

**A. Adran 4.7.3- Datganiad Derbyn Swydd - Cadeirydd**

5. Mae'r cysyniad o "Swyddog Priodol" yn cael ei ddefnyddio'n helaeth o fewn Deddfwriaeth Llywodraeth Leol I ddynodi cyfrifoldebau penodol. Bwriad y cymal penodol yma yw ffurfioli rôl y Prif Weithredwr yn derbyn y datganiad gerbron y Cyngor Llawn.

**B. Adran 4.20.4- Rhybuddion o Gynnig**

6. Ar hyn o bryd mae pob rhybudd o gynnig ar gyfer y Cyngor yn cael ei wirio o safbwynt priodoldeb. Yn gyffredinol mae'r ffurf yn dderbyniol ac yn mynd ymlaen heb addasiad. Fodd bynnag mae adegau pan fu angen cytuno addasiad gyda'r cynigydd i sicrhau penderfyniad priodol. Rhaid dwyn mewn cof nad yw Rhybudd o Gynnig yn hepgor yr angen i gydymffurfio a'r Cyfansoddiad na'r gyfraith o safbwynt penderfyniadau. Yn aml mae'r newidiadau o safbwynt materion trefniadaethol e.e. gofyn am benderfyniadau sydd yn gyfrifoldeb Cabinet, geiriad aneglur neu ar ddamcaniaeth ffeithiol anghywir. Bwriad y cymal sydd yn cael ei argymell yw gosod trefn ffurfiol yn y cyfansoddiad i ymdrin â'r materion yma. Mae hyn yn fwy tryloyw ond mewn gwirionedd nid yw yn newid yr hyn sydd yn digwydd yn ymarferol.

**C. 9.12.3- Cadeirydd / Is Gadeirydd - Pwyllgor**

7. Mae'n drefn yng Ngwynedd nad yw aelod yn cael Cadeirio mwy nac un pwyllgor. Yn ôl y geiriad presennol nid yw hyn yn ymestyn i Is Gadeiryddiaeth. Oherwydd y modd mae'r cymal wedi ei ddrafftio mae'n aneglur ar hyn o bryd ynglŷn â beth yw arwyddocâd y drefn ar rôl Is Gadeirydd. Er enghraifft golygai hyn mewn meysydd megis Craffu fod yr Is Gadeirydd a'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd megis Fforwm Craffu ac yn cynrychioli'r Pwyllgorau. Mae hefyd yn golygu y gall aelod sydd yn Is Gadeirydd fod yn Cadeirio dau bwyllgor petai'r Cadeirydd ddim ar gael ac os yw yn gyfnod estynedig gall hyn olygu cadeirio de-facto.

**CH. 11.3.6 – Swyddog Priodol Mynediad i Wybodaeth**

8. Newid hollol ymarferol gan nad oes gan y Swyddog Monitro rôl yn paratoi cofnodion dylai hyn fod ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**14.12 Eithrio'r Cyhoedd - Eitemau Eithriedig**

9. Yn ôl y cyfansoddiad newydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad a yw mater sydd i fynd ar raglen cyfarfod yn eithriedig ai pheidio. Yn ymarferol mae mewnbwn sylweddol iawn gan y Swyddog Monitro I'r penderfyniad yma ac felly ystyrir ei bod yn well trefniant fod hyn yn cael ei ffurfioli drwy newid y cymal a gosod y penderfyniad yn ei ddwylo.

**D. 14.15.2 – Penderfyniadau Cabinet ac Aelodau Cabinet a Brys**

10. Mae'r newid cyntaf yn hollol ymarferol gan nad oes gan y Prif Weithredwr rôl uniongyrchol yn paratoi cofnodion dylai hyn fod ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

11. Mae darpariaeth ar gyfer penderfyniadau brys gan y Cabinet yn eithrio'r drefn galw i mewn i graffu. Mae gweithredu hyn angen cyd syniad Cadeirydd y Cyngor.. Mae trefn gyffelyb ar gael ynglŷn â phenderfyniadau aelodau unigol o'r Cabinet ond nid yw'r cymal yn ffurfiol hepgor y drefn galw i mewn i graffu. Os oes cyfiawnhad ar gyfer gweithredu ar frys yna mae'n synhwyrol cael darpariaeth gyffelyb. . Byddai penderfyniad o'r fath angen cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol.

**DD. 15.3.4 – 5 Y Gyllideb**

12. Mae gofyn cyfreithiol ar y Cyngor i fabwysiadu Cyllideb hafal. Yn ogystal wrth ddod i unrhyw benderfyniad rhaid gwneud hynny mewn modd sydd yn cloriannu'r materion perthnasol ac anwybyddu'r hyn sydd yn amherthnasol, rheol Wednesbury. Mae hyn yn ofyn ynglŷn ag unrhyw welliant a gynigir ac felly mae cynnig gwelliant i'r Gyllideb yn fater heriol sydd angen ystyriaeth gofalus a manwl.

13. Mae rhag paratoi eang ar y Gyllideb sydd yn caniatáu i aelodau gael gwybodaeth fanwl am y bwriad a'r ystyriaethau. Gosodir y Gyllideb gerbron y Pwyllgor Archwilio ac argymhellir y Gyllideb gan y Cabinet. Felly, mae gwybodaeth ynglŷn â'r Gyllideb arfaethedig ar gael ers peth amser cyn y cyfarfod y Cyngor.

14. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfundrefn yn bodoli ynglŷn â chynnig gwelliannau i'r gyllideb yn y Cyngor. Os nad yw aelodau yn rhag ymgynghori ar eu bwriad mae dwy broblem sylfaenol:

    (a) Y canlyniad cyfredol yw gwelliannau nad ydynt yn gallu dangos cyllideb hafal ac felly yn anghyfreithlon.

    (b) Yr ail oblygiad posib yw gwelliant nad oes modd ymarferol ei ddyfarnu yn briodol yn y fan a'r lle.

    Argymhellir felly gosod darpariaeth yn y Cyfansoddiad sydd ar yr un llaw yn creu cyfundrefn i gefnogi gallu aelodau i ymateb i'r gyllideb ond ar y llaw arall yn golygu fod y Prif Swyddog Cyllid yn benodol yn cael cyfle i ymateb a chynghori ar y gwelliant. Mae'n bwysig pwysleisio mai amcan y diwygiad fyddai annog aelodau i geisio arweiniad ymlaen llaw os am gynnig gwelliant ac nid fel llyffethair ar eu hawliau.

**E. TREFNIADAU CRAFFU**

16. Argymhellir man newidiadau dod a thŷ i drefn yn sgil yr adolygiad craffu.

**Argymhelliad**

**Argymell i'r Cyngor addasu'r Cyfansoddiad yn unol ag Argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ddarostyngedig fod y diwygiad i Baragraff 9.12.3 yn dod yn weithredol wedi cyfarfod blynyddol y Cyngor yn 2018.**

**ATODIAD 1. APPENDIX 1.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A.4.7.3** | **Cadeirio'r Cyngor**<br><br>(a) Bydd y Cynghorydd a etholir yn flynyddol gan y Cyngor fel ei gadeirydd yn cael ei alw'n "Gadeirydd".<br><br>(b) Bydd y Cadeirydd yn peidio â bod yn Gadeirydd os yw'n ymddiswyddo, yn cael ei ddiswyddo trwy bleidlais gan y Cyngor Llawn, yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor, neu'n methu â gweithredu fel Aelod o'r Cyngor. Bydd yn parhau i weithredu fel Cadeirydd ar ôl etholiad nes bod ei olynydd wedi'i benodi.<br><br>(c) Y Prif Weithredwr fydd y Swyddog Priodol gerbron y sawl y bydd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd yn gwneud datganiad derbyn swydd yn unol ag Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | **A. 4.7.3** | **Chairing the Council**<br><br>(a) The Councillor elected annually by the Council as its chair will be called the "Chair".<br><br>(b) The Chair will cease to be Chair if they resign, are dismissed by a vote of Full Council, cease to be a Member of the Council, or are unable to act as a Member of the Council. They continue to act as Chair after an election until their successor has been appointed.<br><br>(c) The Chief Executive shall be the Proper Officer before whom the Chairman and vice Chairman will make their declaration of acceptance of Office in accordance with Section 83 of the Local Government Act 1972 |
| **B. 4.20.4** | **Rhybudd o Gynnig -Priodoldeb**<br><br>(i) Pe rhoddir rhybudd o gynnig sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn anghyfreithlon, allan o drefn, neu yn amhriodol bydd y Swyddog Monitro yn hysbysu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn syth ac ni osodir y cynnig ar y rhaglen heb eu caniatâd, Pe gwneir hyn hysbysir yr aelod a gyflwynodd y rhybudd gan y Swyddog Monitro o'r penderfyniad. Petai modd diwygio'r cynnig er ei wneud yn briodol yna cynghorir yr aelod a'i gyflwynodd o hyn a chaiff gyfle i addasu'r rhybudd o gynnig. | **B.4.20.4** | **Notice of Motion - Propriety**<br><br>(i) if notice is given of any motion that is, in the opinion of the Monitoring Officer, illegal, irregular or improper the Monitoring Officer shall immediately inform the Chairman and the Chief Executive and it shall not be placed on the agenda without their sanction. In this case the Monitoring Officer shall inform the member giving notice. If the motion can be amended so as to render it appropriate then the member giving notice shall be advised of this and given an opportunity to amend the notice of motion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (ii) Er gwaethaf (i) osodir rhybuddion o gynnig ar y rhaglen a fyddai o'u mabwysiadu ym marn y Swyddog Monitro yn golygu penderfyniad anghyfreithiol neu arwain at gamweinyddu fel y'i diffinnir yn Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | | (ii) Notwithstanding (i) a notice of motion which, in the opinion of the Monitoring Officer would on being adopted mean an illegal decision or lead to maladministration as defined in Section 5 of The Local Government and Housing Act 1989 shall not be placed on the agenda. |
| **C.9.12.3** | **Cadeirio pwyllgorau ac is-bwyllgorau**<br><br>(5) Ni chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd neu is-gadeirydd mwy nag un pwyllgor. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn rhwystro aelod sy'n gadeirydd neu is gadeirydd pwyllgor rhag cymryd y gadair mewn pwyllgor dan baragraff (2), na rhag gwasanaethu fel cadeirydd neu is gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu Canolog a Thrwyddedu Cyffredinol ar yr un pryd.<br><br>(6)(i) Ni chaniateir i aelod ddal swydd cadeirydd neu is-gadeirydd pwyllgor penodol am gyfnod o fwy na dwy flynedd ac eithrio aelod sydd wedi dal swydd fel cadeirydd yn ystod y cyfnod o flwyddyn ers y cyfarfod cyntaf ar ôl y Cyngor blynyddol blaenorol.<br><br>(ii) Ni chaiff aelod a fu'n dal swydd cadeirydd pwyllgor penodol ers y cyfnod y cyfeirir ato o dan yr is-baragraff blaenorol ddal swydd is-gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn ystod y flwyddyn ar ôl terfyniad ei swydd oni bai nad oedd y person hwnnw wedi dal swydd y Cadeirydd am y cyfnod hiraf a ganiateir o dan baragraff (6)(i) uchod. Gall ddal y swydd am gyfnod o flwyddyn ac fe'i cyfyngir i un eithriad yn unig. | **C.9.12.3** | **Chairing of committees and sub-committees**<br><br>(5) No member shall serve as a chairman or vice chairman of more than one committee. This provision shall not prevent a member who is a chairman or the vice chairman of a committee from taking the chair of a committee under paragraph (2), nor from serving as the chairman or vice chairman of the Central Licencing Committee and the General Licencing Committee at the same time..<br><br>(6)(i) No member shall be permitted to hold office as chairman or vice-chairman of a committee for a period exceeding two years, with the exception of a member who has been in office as a chairman during the period of one year since the first meeting after the previous annual Council.<br><br>(ii) A member who has held the office of chairman of a particular committee for the period referred to under the previous sub-paragraph cannot hold the office of vice-chairman of that committee during the year following the termination of his/her office, unless such person has not held the office of Chairman for the maximum period permitted under paragraph 6(i) above. The Office may be held for a period of one year and will be limited to one exception only. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CH.11.3.6** | ~~Swyddog Priodol ar gyfer Mynediad at Wybodaeth~~<br><br>~~Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau Gweithredol, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, ac adroddiadau gan Swyddogion Perthnasol a phapurau cefndir ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl.~~ | **CH.11.3.6** | ~~Proper Officer for Access to Information~~<br><br>~~The Monitoring Officer will ensure that Executive decisions, together with the reasons for those decisions and relevant Officer reports and background papers are made publicly available as soon as possible~~ |
| **CH. 14.12** | **Gwahardd y Cyhoedd Rhag Cael Mynediad at Adroddiadau**<br><br>Os yw'r ~~Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd~~ Swyddog Monitro yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff y Cyngor wahardd y cyhoedd rhag cael mynediad at adroddiadau sydd, yn ei farn ef/ei barn hi, yn ymwneud ag eitemau pryd, yn unol â Rheol14.10, y mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Bydd adroddiadau o'r fath yn cael eu marcio â'r geiriau "Nid i'w Gyhoeddi", ynghyd â chategori'r wybodaeth sy'n debygol o gael ei datgelu ac, os yw'n berthnasol, pam yr ystyrir ei bod er budd y cyhoedd i beidio â datgelu'r wybodaeth. | **CH. 14.12** | **Exclusion of Access by the Public to Reports**<br><br>If the ~~Head of Democratic Services~~ Monitoring Officer thinks fit, the Council may exclude access by the public to reports which, in his or her opinion, relate to items during which, in accordance with Rule 14.10, the meeting is likely not to be open to the public. Such reports will be marked "Not for Publication", together with the category of information likely to be disclosed and if applicable, why it is in the public interest it is considered that the information should not be disclosed. |
| **D.14.15.2** | **Paratoi'r Cofnod Penderfyniadau**<br><br>(a) Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd ef/hi yn mynychu unrhyw gyfarfod o'r Cabinet, un o Bwyllgorau'r Cabinet neu Gydbwyllgor neu Is-gydbwyllgor lle y mae ei holl Aelodau yn Aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol, a bydd yn llunio cofnod penderfyniadau cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod.<br><br>(b) Pan fydd Aelod unigol o'r Cabinet wedi gwneud Penderfyniad Gweithredol:<br><br>(i) bydd yr Aelod hwnnw/honno, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn cyfarwyddo'r ~~Prif Weithredwr~~ Pennaeth Gwasanaethau | **D. 14.15.2** | **Preparing the Decision Record**<br><br>(a) The Head of Democratic Services or his or her representative shall attend any meeting of the Cabinet, a Committee of the Cabinet or a Joint Committee or joint Sub-Committee where all its Members are Members of a local authority executive, and shall, as soon as reasonably practicable after the meeting, produce a decision record.<br><br>(b) Where an individual Cabinet Member has made any Executive Decision:<br><br>(i) that Member shall as soon as reasonably practicable instruct the ~~Chief~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Democrataidd i lunio cofnod penderfyniadau; ac<br><br>(ii) ni fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu hyd nes y bydd y cofnod penderfyniadau hwnnw wedi'i lunio, yn amodol ar baragraff (c) isod.<br><br>(c) Pan fydd y dyddiad y mae'n rhaid i Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan Aelod unigol o'r Cabinet gael ei weithredu erbyn yn golygu bod cydymffurfio â 14.15.2(b) uchod yn anymarferol, gellir gweithredu'r penderfyniad os yw'r penderfynwr wedi cael cytundeb<br><br>(i) Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol; neu<br><br>(ii) os nad oes unigolyn o'r fath neu os nad yw'r unigolyn hwnnw/honno'n gallu gweithredu, y Cadeirydd; neu<br><br>(iii) os nad oes unrhyw un o'r uchod, yna'r Is-gadeirydd,<br><br>bod angen gwneud y penderfyniad ar frys ac nad yw'n rhesymol ei ohirio. Ni fydd y weithdrefn galw i mewn yn Adran 7.25 yn berthnasol yn yr amgylchiadau yma. | | ~~Executive~~ Head of Democratic Services to produce a decision record; and<br><br>(ii) the decision shall not be implemented until that decision record has been produced, subject to paragraph (c) below.<br><br>(c) Where the date by which an Executive Decision made by an individual Cabinet Member must be implemented makes compliance with 14.15.2 (b) above impracticable, the decision may be implemented if the decision maker has the agreement of<br><br>(i) the Chair of the relevant Scrutiny Committees; or<br><br>(ii) if there is no such person or that person is unable to act, the Chair; or<br><br>(ii) if there is none of the above then the Vice Chair,<br><br>that the making of the decision is urgent and cannot reasonably be deferred. The call in procedure in Section 7.25 will not apply in these circumstances. |
| **DD.15.3.4** | **Y Gyllideb**<br><br>Wedi cyfarfod y Cabinet fe anofnir copi o'r cynnigion sydd i'w argymell i'r Cyngor ynghyd a chopi o'r gyllideb arfaethedig i bob aelod o'r Cyngor. | **DD. 15.3.4** | **Y Gyllideb**<br><br>After the Cabinet meeting a copy of the proposals which are to be recommended to the Council together with a copy of the proposed Budget shall be sent to all members of the Council. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15.3.5** | Ni chaiff y Cyngor ystyried unrhyw welliant i gynigion y Cabinet sydd i'w cynnig gan Aelod yng nghyfarfod y Cyngor, oni bai y rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig neu drwy ohebiaeth electroneg o eiriad arfaethedig y gwelliant wedi ei lofnodi gan y cynigydd i'r Pennaeth Cyllid, o leiaf dau  ddiwrnod clir cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor.  Ni fydd gwelliant o'r fath ond yn dderbyniol os yw'n cynnig cyllideb sy'n balansio incwm cyffredinol gyda gwariant am y flwyddyn. Gall ef/hi hefyd gyflwyno adroddiad | **15.3.5** | An amendment to the Budget to be proposed by a Member  may not be considered at a Council meeting unless at least 2 clear days' notice in writing  or by electronic mail of the proposed wording , signed by the proposer has been  given to the Head of Finance. Such an amendment will only be acceptable if it proposes a budget which balances general income with expenditure for the year. He/She may present a report. |

**E. 7.3** **Pwyllgor Craffu Cymunedau**

| **Pwyllgor ac Aelodaeth** | **Rôl a Chwmpas** |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Cymunedau 18 Aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau i'r gymuned ehangach megis:<br>• Amgylchedd<br>• Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol<br>• Gwastraff ac Ail Gylchu<br>• Lleihau ôl-troed Carbon<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• ~~Gwasanaethau i Gwsmeriaid~~ |

**E. 7.3** **Communities Scrutiny Committee**

| **Committee and Membership** | **Role and Scope** |
|---|---|
| Communities Scrutiny Committee<br>18 members | To scrutinise matters relating to services for the wider community such as:<br>• Environment<br>• Transportation and Community Transport<br>• Waste and Re-Cycling<br>• Carbon Footprint Reduction<br>• Local Development Plan<br>• Public Services Board<br>• ~~Customer Services~~ |

| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
|---|---|
| (iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth <u>a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau'r adroddiadau.</u><br><br>(v) adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu , trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd gweithlu <u>a'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Tîm Arweinyddiaeth..</u> | (i) to consider observations and concerns on individual services at a county level, on the basis of reports by Council officers, the Audit Commission or the District Auditor <u>and monitor the response and actions on the recommendations and findings.</u><br><br>(ii) Review and scrutinise matters relating to the councils internal operation such as corporate strategies, partnerships, engagement, business transformation and workforce efficiency arrangements <u>and the functions carried out by the Finance Department, Corporate Support Department and Leadership team.</u> |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **14 Rhagfyr 2017** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **TEITL** | **Penderfyniad Brys Cabinet** |
| **AMCAN** | **Er Gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**CEFNDIR**

1. Fe gafodd adroddiad ar sefyllfa premiwm les safle Rheilffordd Ucheldir Cymru, Caernarfon ei chyflwyno i'r Cabinet ar y 24ain o Hydref 2017. Amcan yr adroddiad oedd ymateb i gais a gafwyd ynglŷn â Gorsaf Reilffordd Ucheldir Cymru, Caernarfon i'r Cyngor addasu les y safle er caniatáu defnydd gwerthu bwyd a man werthu a hepgor gofyn ar gyfer premiwm ychwanegol canlynol yn y ddogfen. Oherwydd amserlen gaeth ynglŷn â chymeradwyo grantiau roedd angen penderfyniad fyddai'n weithredol yn syth wedi'r cyfarfod.

**PENDERFYNIAD BRYS**

2. O ganlyniad, bu'n ofynnol gwneud penderfyniad brys yn unol â Rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad y dylid ei eithrio o'r drefn galw i mewn i graffu. Roedd hyn er sicrhau fod y Cyngor yn medru darparu penderfyniad i'r cwmni o fewn amserlen y grant. Mae'r drefn yma yn caniatáu gwneud penderfyniad o'r fath yn amodol ar gydsyniad Cadeirydd y Cyngor ac adrodd ar hyn i'r Cyngor nesaf.

3. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd y Cyngor ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynigwyd yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau.

**ARGYMHELLIAD**

I dderbyn a nodi'r adroddiad